

Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru (WCEC) Adolygiad Cyflym

**Adolygiad cyflym o effeithiolrwydd datblygiadau arloesol i gefnogi
cleifion ar restrau aros llawdriniaeth ddewisol
Rhif yr adroddiad: RR00030 Ebrill 2022**

Manylion yr Adolygu Cyflym

Cynhaliwyd yr Adolygiad gan:
Iechyd Cyhoeddus Cymru

Tîm Adolygu:

- Hannah Shaw
- Dr Chukwudi Surroundings
- Rocio Rodriguez
- Amy Hookway
- Dr Alesha Wale

Cyflwynwyd yr Adolygiad i'r WCEC ar:
1 Ebrill 2022

Cyfarfod ymgynghori â rhanddeiliaid:
6 Ebrill 2022

Cyhoeddwyd yr Adroddiad ar yr Adolygiad Cyflym gan y WCEC:
Mai 2022

Tîm y WCEC:

- Adrian Edwards, Alison Cooper, Ruth Lewis, Becki Law, Jane Greenwell yn ymwneud â drafftio Crynodeb o'r Prif Bwyntiau a golygu

Dylid cyfeirio at yr adolygiad hwn fel a ganlyn:

RR00030. Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru. Adolygiad cyflym o effeithiolrwydd datblygiadau arloesol i gefnogi cleifion ar restrau aros llawdriniaeth ddewisol. Ebrill 2022.

<https://ymchwiliiechydagofalcymru.org/support-patients-elective-surgical-waiting-lists>

Gellir lawrlwytho'r adroddiad hwn yma:

<https://ymchwiliiechydagofalcymru.org/llyfrgell-adroddiadau-canolfan-tystiolaeth-cofid-19-cymru>

Ymwadiad:

Barn yr awduron a fynegir yn y cyhoeddiad hwn ac nid barn Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru o reidrwydd. Mae WCEC ac awduron y gwaith hwn yn datgan nad oes ganddynt unrhyw wrthdaro buddiannau.

Effeithiolrwydd datblygiadau arloesol i gefnogi cleifion ar restrau aros llawdriniaeth ddewisol

Rhif yr adroddiad RR00030 (Ebrill 2022)

CRYNODEB O'R PRIF BWYNTIAU

Beth yw Adolygiad Cyflym?

Mae ein hadolygiadau cyflym yn defnyddio amrywiad o'r dull adolygu systematig, gan dalfyrru neu hepgor rhai cydrannau i greu'r dystiolaeth i hysbysu rhanddeiliaid yn brydlon gan barhau i roi sylw i ogwydd. Maent yn dilyn yr argymhellion methodolegol a'r safonau gofynnol ar gyfer cynnal ac adrodd am adolygiadau cyflym, gan gynnwys protocol strwythuredig, chwilio systematig, sgrinio, echdynnu data, gwerthuso beirniadol, a chyfuno tystiolaeth i ateb cwestiwn penodol a nodi bylchau ymchwil allweddol. Maent yn cymryd 1-2 fis, yn dibynnu ar ehangder a chymhlethdod y pwnc/cwestiwn (cwestiynau) ymchwil, hyd a lled y sylfaen dystiolaeth, a'r math o ddadansoddiad sydd ei angen ar gyfer cyfuno.

Ar gyfer pwy mae'r crynodeb hwn?

Byrddau Iechyd ac eraill sy'n ymwneud â chynllunio, monitro, rheoli restrau aros am lawdriniaeth.

Cefndir / Nod yr Adolygiad Cyflym

Mae amseroedd aros am lawdriniaeth wedi cyrraedd y lefel uchaf erioed, yn enwedig gyda thriniaethau dewisol a thriniaethau nad ydynt yn rhai brys yn cael eu hatal neu eu gohirio yn ystod pandemig COVID-19. **Gall aros am gyfnod hir am lawdriniaeth effeithio'n negyddol ar gleifion** a allai brofi canlyniadau iechyd gwaeth, iechyd meddwl gwael, cynnydd yn y clefyd, neu hyd yn oed farwolaeth. Efallai y byddai'n well defnyddio'r amser a dreulir yn aros am lawdriniaeth i baratoi cleifion ar gyfer llawdriniaeth. Ceisiodd yr adolygiad hwn **nodi datblygiadau arloesol i gefnogi cleifion ar restrau aros am lawdriniaeth** i lywio polisi a strategaeth i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o lawdriniaeth ddewisol yng Nghymru. Mae'r **adolygiad yn seiliedig ar ganfyddiadau adolygiadau presennol** gyda blaenoriaeth yn cael ei rhoi i gyfuno tystiolaeth gadarn gan ddefnyddio safonau gofynnol (chwilio systematig, dewis astudiaethau, asesu ansawdd, a chyfuno priodol).

Canfyddiadau Allweddol

Hyd a lled y sylfaen dystiolaeth

- Cynhwyswyd 48 o adolygiadau systematig; **Rhodddwyd blaenoriaeth i 17 o adolygiadau i'w cynnwys yn y cyfuniad naratif.** Cynhwyswyd 10 protocol arall o adolygiadau systematig parhaus.
- Roedd y rhan fwyaf o adolygiadau (n=23) yn canolbwyntio ar **weithdrefnau llawfeddygol orthopedig.**
- Roedd y rhan fwyaf o adolygiadau (n=31) yn canolbwyntio ar **ymyriadau sy'n seiliedig ar ymarfer corff.** Roedd ymyriadau eraill yn **addysgol** (n=6), **seicolegol** (n=2), **rhoi'r gorau i ysmegu** (n=1), **colli pwysau** (n=1), ac **ymyriadau aml-gydran** (n=7).
- Roedd y **data a ddarparwyd ar nodweddion demograffig-gymdeithasol** cleifion yn gyfyngedig.
- Ni werthusodd yr un adolygiad effaith yr ymyriad ar driniaeth lawfeddygol.

- **Ni nodwyd unrhyw dystiolaeth** yn ymwneud â'r defnydd o **ragnodi cymdeithasol na dulliau eraill sy'n canolbwyntio ar y gymuned** i gefnogi cleifion ar restrau aros llawdriniaeth.
- **Ni nodwyd unrhyw dystiolaeth** yng nghyd-destun y **pandemig COVID-19 presennol**.

Diweddaredd y sylfaen dystiolaeth

- Roedd y dyddiadau chwilio ar gyfer yr adolygiadau a flaenoriaethwyd yn amrywio o 2014-2021; cynhaliwyd y rhain yn 2020 (n=3) neu 2021 (n=3) ar gyfer chwe adolygiad.

Tystiolaeth o effeithiolrwydd

- **Gallai ymyriadau ymarfer corff cyndriniaethol** (n=9; 6 yn orthopedig) **helpu i wella canlyniadau cyndriniaethol ac ôl-driniaethol fel poen, cryfder a gweithrediad cyhyrau, a llai o achosion o gymhlethdodau ôl-driniaethol**, mewn pobl yn aros am llawdriniaeth ddewisol.
- **Roedd ymyriadau addysgol** (n=3; 1 yn orthopedig) **yn effeithiol o ran gwella gwybodaeth** cleifion yn aros am llawdriniaeth ddewisol. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth am yr ymyriadau hyn yn gwella poen cyndriniaethol ac ôl-driniaethol **a gweithrediad corfforol** cleifion orthopedig yn **gyfyngedig**. Cafwyd **canfyddiadau cymysg ar gyfer effeithiolrwydd** ymyriadau addysgol cyndriniaethol ar **ganlyniadau seicolegol**.
- **Mae'r dystiolaeth am ymyriadau seicolegol** (n=2; 1 yn orthopedig) **yn gyfyngedig** ond mae'n dangos **y gallai gael effaith gadarnhaol ar gydrannau pryder ac iechyd meddwl** ansawdd bywyd ar ôl llawdriniaeth. Mae'r dystiolaeth i gefnogi ymyriadau o'r fath o ran lleihau poen ôl-driniaethol yn amhendant.
- Cafodd **ymyriadau rhoi'r gorau i ysmegu** (n=1) sy'n darparu cymorth ymddygiadol ac yn cynnig therapi disodli nicotin effaith gadarnhaol ar **roi'r gorau i ysmegu yn y tymor byr ac efallai gall leihau afiachedd ôl-driniaethol**. Ymddengys bod ymyriadau dwys cyndriniaethol o ran rhoi'r gorau i ysmegu yn lleihau nifer yr achosion o gymhlethdodau ôl-driniaethol, ond nid ymyriadau byr.
- **Gallai ymyriadau aml-gydran** (n=2; 1 yn orthopedig) sy'n cynnwys cydrannau ymarfer corff ac addysg **leihau hyd arhosiad mewn ysbyty a gwella poen, gweithrediad a chryfder cyhyrau ôl-driniaethol**.

Tystiolaeth o'r ansawdd gorau

Roedd tri adolygiad yn cael eu trin fel rhai o ansawdd uchel. Dau yn gwerthuso ymyriadau yn seiliedig ar ymarfer corff (Fenton et al. 2021; Katsura et al. 2015) ac un ar baratoi seicolegol (Powell et al. 2016).

Goblygiadau'r Polisi

- Mae'r rhan fwyaf o'r dystiolaeth sydd ar gael yn deillio o adolygiadau **llawdriniaeth orthopedig** a allai **gyfyngu ar gyffredinoladwyedd**.
- Mae'r canfyddiadau hyn yn **dangos manteision ymarfer corff, addysg, rhoi'r gorau i ysmegu, ac ymyriadau seicolegol i gleifion sy'n aros am llawdriniaeth ddewisol**. Dylai llunwyr polisi, addysgwyr a chlinigwyr ystyried argymell **bod ymyriadau o'r fath yn cael eu cynnwys mewn cwricwla gweithwyr iechyd proffesiynol**.
- Mae angen rhagor o ymchwil i ddeall sut mae gwahanol **is-grwpiau cleifion** yn ymateb i ymyriadau cyndriniaethol, gan gynnwys y rheini o **grwpiau ethnig na wasanaethir yn ddigonol a grwpiau lleiafrifoedd ethnig, grwpiau mwy difreintiedig a'r rhai â chyraeddiadau addysgol is**.
- Mae angen rhagor o ymchwil ar **ragnodi cymdeithasol neu ddulliau eraill sy'n canolbwyntio ar y gymuned**.
- Nid yw'n glir pa effaith y gallai'r pandemig (ac unrhyw gyfyngiadau cysylltiedig) ei chael ar y gallu i gynnal yr ymyriadau hyn na'u heffeithiolrwydd.

Cryfder y Dystiolaeth

Roedd yr astudiaethau sylfaenol a gynhwyswyd yn yr adolygiadau yn dreialon a reolir ar hap yn bennaf, ond roedd gan y rhan fwyaf ohonynt faint sampl bach, yn amrywio yn ôl y llawdriniaeth, ac yn aml roedd ganddynt broblemau o ran dallu.